

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: Gareth Morgans
Fy nghyf / My ref: Llinell Uniongyrchol / Direct Line: 01267 246522
Dyddiad / Date: 13-07-21 E-bost / E-mail: CwestiwnECS@sirgar.gov.uk / QuestionECS@carmarthenshire.gov.uk

Annwyl Riant/Gofalwr

Rydym am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi cyn diwedd y tymor am y trefniadau ar gyfer mis Medi.

Mae'r Gweinidog Addysg Jeremy Miles wedi cyhoeddi newidiadau newydd ar sut y gall ysgolion barhau i weithredu'n ddiogel pan fyddant yn dychwelyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cyfraddau achosion COVID ledled Cymru, a sut y maent yn gysylltiedig â derbyniadau i'r ysbyty. Rydym yn teimlo'n obeithiol am y dyfodol oherwydd llwyddiant y rhaglen frechu, ac wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ar draws y gymdeithas ehangach, dylai lleoliadau addysg ddilyn patrwm tebyg.

Mae tri phrif newid yn cael eu cynnig i ddod â rhywfaint o normalrwydd yn ôl i addysg cyn tymor newydd yr hydref. Dyma nhw:

- Ni fydd gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell bellach yn rheolaidd mewn ystafelloedd dosbarth mewn ysgolion uwchradd; ond byddant yn cael eu hannog mewn ardaloedd cymunedol a byddant yn parhau i fod yn ofynnol ar gludiant i'r ysgol*
- ni fydd grwpiau cyswllt yn cael eu hargymell mwyach a defnyddir y broses Profi, Orlhain a Diogelu i nodi cysylltiadau agos dysgwyr sydd wedi profi'n bositif.*
- Amseroedd sesiynau arferol yr ysgol yn ailddechrau.*

Erbyn diwedd mis Medi bydd pob oedolyn yng Nghymru wedi cael cynnig y ddau frechiad, gan ddarparu mwy o amddiffyniad i'n gweithlu addysg. Mae mwy a mwy o dystiolaeth hefyd yn dangos bod colli ysgol yn achosi mwy o niwed i blant na COVID.

Mae cyngor newydd wedi'i gyhoeddi ar y newidiadau allweddol i ysgolion o fis Medi ynghyd â Chanllawiau Gweithredol wedi'u diweddarau sy'n rhoi rhagor o fanylion.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 Lleol ar ddechrau tymor yr hydref fel bod gan ysgolion amser i sefydlu systemau newydd yn ystod yr wythnosau ar ôl hynny. Bydd y fframwaith yn galluogi ysgolion i deilwra rhai o'r ymyriadau i adlewyrchu lefel y risg yn lleol, gyda chefnogaeth swyddogion iechyd cyhoeddus ac awdurdodau lleol i sicrhau bod mesurau'n briodol i'w hamgylchiadau.

Gareth Morgans, BAdd/BEed; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod ni i gyd yn parhau i ddilyn y canllawiau mewn perthynas â hunanynysu ac yn golchi ein dwylo'n aml er mwyn lleihau'r potensial o drosglwyddo'r feirws yn ein hysgolion.

Rydym eisoes wedi cwrdd â phenaethiaid i drafod y newidiadau hyn a byddwn yn gweithio'n agos gydag arweinwyr ein hysgolion i wneud y newidiadau hyn ac i barhau i sicrhau diogelwch ein dysgwyr a'n staff.

Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr uwchradd barhau â'r Profion Llif Unffordd dros wyliau'r haf, ond mae angen i chi brofi cyn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod i ni os caiff eich plentyn brawf positif dros y gwyliau, rhowch wybod i ni drwy-

- ffonio Llesiant Delta ar 0300 333 2222
- neu drwy e-bostio TTP@deltawellbeing.org.uk

Os oes unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol yn ystod gwyliau'r haf, byddwn yn cysylltu â chi.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddymuno gwyliau haf gwych i chi, arhoswch yn ddiogel a mwynhewch.

Yr eiddoch yn gywir,

Gareth Morgans

Cyfarwyddwr | Director

Adran Addysg a Gwasanaethau Plant | Education and Children's Services Department

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP
Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English